# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 18 Ebrill 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Carol Holliday, Alan Hughes, Hugh Irving (Cadeirydd), Paul Keddie, Diane King, Terry Mendies, Gareth Sandilands (Is-Gadeirydd), ac Andrea Tomlin.

**Aelodau Arweiniol yn bresennol ar ôl cael gwahoddiad gan y Pwyllgor:**
Y Cynghorydd Emrys Wynne: Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth a’r Cynghorydd Julie Matthews: Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol:  Llywodraethu a Busnes (GW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau (HV-E), Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (HB-P), Swyddog Digidol (PB), Prif Reolwr Cydnerthu Cymunedol (CT), Cyfarwyddwr Partneriaeth Openreach yng Nghymru a Gorllewin Lloegr (MW), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SW a NH)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau, a oedd mewn cyfarfod arall.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol neu bersonol ac sy’n rhagfarnu ag unrhyw un o’r eitemau a restrwyd i’w trafod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau brys gyda’r Cadeirydd na’r cydlynydd Craffu cyn dechrau’r cyfarfod.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024.

Cywirdeb
Eitem 5. ‘Addysg Ddewisol yn y Cartref’ - yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon, roedd y Cynghorydd Andrea Tomlin wedi holi am ddefnydd rhieni’r disgyblion

Addysg Ddewisol yn y Cartref o lyfrgelloedd i gefnogi addysg eu plant, ac os oedd effaith lleihau oriau agor llyfrgelloedd ar y rhieni hyn ac ar addysg y disgyblion wedi cael ei asesu. Wrth ymateb i'r ymholiad hwn, dywedodd y Pennaeth Addysg nad oedd unrhyw ddata wedi'i gadw ar ddefnydd y rhieni o lyfrgelloedd at ddibenion caffael adnoddau addysgol, er y byddai rhieni mwy na thebyg yn defnyddio eu llyfrgelloedd lleol at y diben hwn. Yn dilyn y newid i oriau agor llyfrgelloedd, os oedd rhieni'r disgyblion hyn yn wynebu anawsterau o ran cael mynediad at eu llyfrgell leol i gael y deunyddiau angenrheidiol, dylent gysylltu â'r Gwasanaeth Addysg a fyddai'n gwneud pob ymdrech i'w cyfeirio neu'u cefnogi i gael yr adnoddau.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>*****: yn amodol ar gynnwys yr uchod, y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.**

<u>Materion yn codi</u>
Eitem 5. 'Addysg Ddewisol yn y Cartref' - cadarnhawyd bod swyddogion a'r Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd i fod i gyfarfod yn fuan i lunio llythyr i Weinidog Addysg a'r Gymraeg Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Llywodraeth gyflwyno rheoliadau sy'n llywodraethu cyfrifoldebau'r rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref.

## 5 CYSYLLTEDD RHYNGRWYD YN SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth yr adroddiad ar Gysylltedd Rhyngrwyd yn Sir Ddinbych (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor.

Allan o'r cyfanswm o 50,501 eiddo yn Sir Ddinbych roedd 2,690 eiddo yn derbyn cyflymderau rhyngrwyd o 30Mbs neu lai ac roedd 1,145 eiddo yn derbyn cyflymderau rhyngrwyd o 10Mbs neu lai (roedd Atodiad A i'r adroddiad yn darparu manylion pellach i Aelodau).

Roedd 'Helpu trigolion i ddeall yr opsiynau a datrysiadau ar gyfer gwell cysylltedd rhyngrwyd' yn nod o fewn ein Cynllun Corfforaethol ac roedd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi buddsoddi mewn swydd Swyddog Digidol (o Chwefror 2020 i Fai 2025) i hysbysu unigolion, busnesau a chymunedau am hyn. Roedd y Swyddog Digidol yn gweithio'n agos gydag Aelodau o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned wrth hysbysu cymunedau.

Roedd y Cyngor yn cael ei gynrychioli hefyd ar Raglenni Digidol a Bwrdd Digidol Uchelgais Gogledd Cymru. Roedd y gwaith hwn ar lefel strategol a lefel ranbarthol ac roedd yn canolbwyntio ar wella isadeiledd ar draws y rhanbarth.

Roedd ymyrraeth polisi a masnachol newidiol yn gwneud y gwaith yn heriol oherwydd cyhoeddiadau a newidiadau masnachol gan Openreach ac ymyrraeth gan Lywodraeth y DU, a allai olygu nad oes angen neu nad yw prosiectau Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn ymarferol mwyach, yn sgil trefniadau masnachol ac

ymyrraeth Llywodraeth y DU. Roedd hwn yn waith tymor canolig i hirdymor, ac felly roedd prosiectau yn gallu newid i adlewyrchu'r amgylchedd newidiol.

Soniodd y Prif Reolwr Cydnerthu Cymunedol ymhellach am bwysigrwydd cysylltedd rhyngrwyd yn y gymuned.

Roedd 3 philer cynhwysiant digidol -

- Mynediad at offer
- Gwybodaeth am ddefnyddio offer
- Isadeiledd cysylltedd

Gallai peidio â chael mynediad at y rhyngrwyd gael effaith niweidiol ar gyfleoedd bywyd. Roedd cael cysylltiad band eang yn ymwneud â chael y gallu i ymgysylltu a chysylltu o fewn y gymuned, yn cynnwys mynediad at addysg, cyfleoedd cyflogaeth, a chyngor iechyd.

Eglurodd y Swyddog Digidol er bod gan y rhan fwyaf o siroedd lond llaw o gwmnïau yn gosod isadeiledd rhwydwaith ffibr, Openreach oedd yr unig gwmni a oedd yn gosod yr isadeiledd angenrheidiol yn Sir Ddinbych. Er hyn, roedd Sir Ddinbych yn rhagori ar gyfartaledd Cymru o ran cysylltedd rhyngrwyd, fodd bynnag, roedd angen sicrhau bod rhannau gwledig o'r sir yn cael mynediad at yr un lefel o gysylltedd â'r ardaloedd mwy trefol. Yn y dyfodol agos, byddai 762 eiddo o fewn y sir yn cael cysylltiad ffibr, roedd hyn wedi cael ei sicrhau drwy gynlluniau talebau Gigabit. Byddai hyn, yn ei dro, yn helpu safleoedd gerllaw i gael mynediad at y rhwydwaith ffibr am bris mwy rhesymol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Partneriaeth Openreach yng Nghymru a Gorllewin Lloegr fod Sir Ddinbych ymysg y gorau yng Nghymru o ran cysylltedd ffibr. Roedd £11 miliwn o bunnoedd wedi cael eu buddsoddi hyd yma i uwchraddio'r rhwydwaith copr i ffibr llawn ac roedd 11 cyfnewidfa newydd ar draws y sir bellach wedi cael eu clustnodi ar gyfer bod yn adeiladau masnachol.

Roedd y cynllun talebau Gigabit wedi dod i ben am y tro, fodd bynnag, roedd 4 cynllun talebau newydd i helpu preswylwyr gyda chysylltedd wedi cael eu lansio yn Sir Ddinbych yn ddiweddar, un o'r cymunedau i elwa o'r cynllun hwn oedd Llandyrnog.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion a'r Aelod Arweiniol am yr adroddiad ac fe groesawodd gwestiynau gan yr Aelodau.

Cwestiynodd yr Aelodau ar ba gam fyddai'r gwaith adeiladu isadeiledd erbyn diwedd 2025 a pha gymunedau / cyfnewidfeydd fyddai'n parhau i fod heb ffibr. Eglurodd gynrychiolydd Openreach eu bod yn gobeithio y bydd 80% o'r eiddo yn y rhaglen uwchraddio cyfnewidfeydd presennol gyda chysylltiad ffibr llawn erbyn diwedd 2026.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ar y system Starlink y cyfeiriwyd ati yn yr adroddiad. Eglurodd y Swyddog Digidol fod hon yn system lloeren newydd,

byddai'n costio £75 y mis i gael y system hon mewn aelwyd, a byddai'n darparu 100 megabeit yr eiliad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Gynllun Talebau Gigabit Llywodraeth y DU, a fyddai'n dod i ben ym mis Mawrth 2025, a fydd yn cael effaith ar beidio â chyflwyno ffibr i ardaloedd gwledig drwy Bartneriaeth Ffibr Cymunedol Openreach. Dywedodd y Swyddog Digidol a Swyddog Openreach bod y cynllun talebau wedi cael ei ymestyn am ddwy flynedd.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y map a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad ar y cyfnewidfeydd cytunedig rhwng rŵan a mis Rhagfyr 2026 a gofynnwyd sut yr oedd ardaloedd yn cael eu blaenoriaethu. Eglurodd y Swyddog Openreach fod y cynlluniau'n seiliedig ar hyfywedd yr isadeiledd o fewn yr ardal.

Cwestiynodd yr Aelodau a oedd anhawster o ran cael preswylwyr i ddefnyddio'r cysylltiad ffibr ar gael iddynt a defnyddio'r offer yr oedd ganddynt gartref ac os oedd data ar faint o bobl oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y Sir. Dywedodd y Prif Reolwr Cydnerthu Cymunedol bod arolwg digidol wedi cael ei gynnal gyda thenantiaid mewn tai Cyngor, ac roedd yr arolwg yn cynnwys casgliad o gwestiynau yn ymwneud â defnydd o'r rhyngrwyd. Roedd yr Aelodau'n credu y byddai data ar nifer y preswylwyr sy'n defnyddio ac nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Wrth ymateb i gwestiynau ynglŷn ag a oedd cael cymunedau o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ddynodedig yn heriol o ran cael caniatâd i godi polion telegraff ac ati a phe bai'r dynodiad hwn yn newid i statws Parc Cenedlaethol byddai hyn yn fwy heriol fyth, dywedodd y cynrychiolydd Openreach, er y gallai hyn fod yn ystyriaeth, mai'r prif rwystr oedd natur wledig yr ardal a natur wasgaredig yr eiddo o fewn y cymunedau gwledig hyn. Oherwydd y costau'n gysylltiedig â gosod yr isadeiledd hanfodol ac angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau, roedd yn hollbwysig bod digon o gyllid yn cael ei sicrhau cyn y gellid cyflwyno ffibr, 4G neu 5G i unrhyw ardaloedd yn Sir Ddinbych neu unrhyw le ledled y wlad.

Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd cadw rôl Swyddog Digidol o fewn y Cyngor oherwydd bod gan y swydd hon ran allweddol i'w chwarae wrth addysgu a chefnogi preswylwyr a chymunedau yn ystod y broses o gyflwyno ffibr llawn ar draws y Sir.

Ar ddiwedd trafodaeth gynhwysfawr, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu mewnbwn. Diolchodd hefyd i Martin Williams, Cyfarwyddwr Partneriaeth Openreach yng Nghymru a Gorllewin Lloegr am fynychu ac ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar yr atebion a'r arsylwadau uchod –***

***(i)*** ***derbyn y wybodaeth a ddarperir o ran y sefyllfa bresennol mewn perthynas â chysylltedd y rhyngrwyd a theleffoni yn Sir Ddinbych;***

***(ii)*** ***cydnabod a phwysleisio pwysigrwydd Swyddog Digidol y Cyngor wrth gefnogi preswylwyr a chymunedau Sir Ddinbych yn enwedig y rhai hynny mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd, i gael mynediad at wasanaethau teleffoni a rhyngrwyd effeithiol a fforddiadwy; a***

***(iii)*** ***gofyn bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ymhen 12 mis yn nodi cynnydd lleol a chenedlaethol mewn perthynas â materion rhyngrwyd a theleffoni.***

Ar y pwynt hwn, cymerodd y Pwyllgor egwyl. Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.15am.

**6 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISGIAU GORFFORAETHOL: CHWEFROR 2024**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol yr Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol: Chwefror 2024 i'r Pwyllgor.

Yr Uwch Dîm Arwain, ynghyd â'r Cabinet, oedd wedi datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Roedd yn cael ei hadolygu ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn friffio'r Cabinet. Ar ôl pob adolygiad, roedd y gofrestr wedi'i diweddaru wedyn yn cael ei rhannu gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyflawnwyd yr adolygiad diwethaf ym mis Medi 2023. Mae'r papurau a gyflwynwyd ddiwethaf i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad (30 Tachwedd 2023) ar gael ar-lein.

Roedd Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg y Cyngor wedi cael ei ddefnyddio yn y trafodaethau a gafwyd gyda pherchnogion risgiau, a dadansoddwyd lefel risg y Cyngor o fewn y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

Roedd gan y Cyngor 13 o Risgiau Corfforaethol ar y Gofrestr ar hyn o bryd. Darparwyd crynodebau o'r adolygiad yn Atodiad 2. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr yn yr adolygiad hwn, nac unrhyw rai newydd wedi'u hychwanegu. Er bod pob risg wedi'i hadolygu, nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol wedi'u gwneud yn ystod adolygiad Chwefror 2024, ac nid oedd sgôr risg weddilliol unrhyw un o'r 13 Risg Gorfforaethol wedi newid.

Eglurodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad bod y 13 risg a nodwyd yn yr adroddiad wedi aros yn sefydlog heb unrhyw newid. Roedd proses beilot ar waith ar gyfer dull adolygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a fyddai'n golygu adolygu'r gofrestr 4 gwaith y flwyddyn a chyflwyno diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad a chroesawyd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Croesawodd yr Aelodau'r dull newydd ar gyfer adolygu'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at risg 01 a oedd yn ddibynnol iawn ar Wasanaethau Cymdeithasol a chwestiynwyd os y dylid rhoi mwy o ffocws ar y Gwasanaethau AD a'r broses wirio ar gyfer pobl sy'n ymuno â'r Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau y byddai hyn yn rhywbeth y gellid ei drafod eto mewn cyfarfod yn y dyfodol ar ôl cael y manylion. Rhoddodd y Swyddog Monitro sicrwydd i'r Aelodau bod proses ar waith ar gyfer gwiriadau diogelu a oedd yn cael ei hymestyn i unrhyw asiantaeth yr oedd y Cyngor yn ei defnyddio. Roedd gwiriadau gorfodol yn cael eu cwblhau yn dilyn penodi gweithwyr newydd ac roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob un o weithwyr y Cyngor beth bynnag eu rôl, gyda hyfforddiant mwy dwys yn cael ei ddarparu i'r rhai hynny a oedd yn darparu gwasanaethau gofal rheng flaen.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurder ynghylch risg 21, yn cyfeirio at unrhyw welliannau cysylltedd / cyfathrebu rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ers rhoi'r Bwrdd yn ôl dan Fesurau Arbennig. Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg  bod y berthynas rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella. Penodwyd Prif Swyddog Gweithredol newydd yn ddiweddar ar y Bwrdd Iechyd ac fe gynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Bwrdd Iechyd a oedd yn gadarnhaol iawn.

Cyfeiriodd yr Aelodau at risg 45, Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol a chwestiynwyd a oedd y Cyngor wedi asesu effaith y risg i'r Cyngor o beidio â chyrraedd y targed lleihau carbon a'r sgil-effaith bosibl o gynyddu prisiau ynni ar sefydlogrwydd ariannol y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau bod y risg yn cael ei hasesu'n barhaus, byddai peidio â chyrraedd y targed carbon yn golygu gwario mwy ar ynni yn y pen draw.

Trafododd yr Aelodau risgiau 51 a 52 - Hinsawdd Economaidd - gan gyfeirio at leihau gwasanaethau. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Cyngor mewn perygl o esgeuluso gwasanaethau eraill tra'n canolbwyntio ar eraill. Dywedodd y Swyddog Monitro mai dyma pam yr oedd risgiau 51 a 52 wedi'u nodi ar y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol. Nid oedd gan y Cyngor ddigon o arian i ddarparu lefel y gwasanaethau yr oeddent wedi'i wneud yn y gorffennol.  Roedd angen gwneud toriadau i wasanaethau, fodd bynnag, byddai lefel y gwasanaeth yr oedd yn rhaid i'r Cyngor ei darparu yn unol â'r gyfraith yn parhau. Nodwyd yn glir, wrth leihau gwasanaethau, na fyddai disgwyl i'r staff sy'n weddill gyflawni llwyth gwaith eraill. Byddai trawsnewid gwasanaeth yn ffurfio rhan allweddol o'r gwaith i ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26, byddai gan y Pwyllgor Craffu rôl i'w chwarae wrth archwilio unrhyw gynigion i drawsnewid gwasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Aelod Arweiniol am yr adroddiad manwl ac am fynychu'r cyfarfod.

Ar ddiwedd trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar y sylwadau a'r arsylwadau uchod –***

***(i)*** ***cydnabod yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol a derbyn fersiwn Chwefror 2024 o'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol;***
***(ii)*** ***cefnogi'r diwygiadau i Ddatganiad y Cyngor ar Barodrwydd i Dderbyn Risg, fel y manylwyd ym mharagraffau 4.7 i 4.8 ac Atodiad 3 i'r adroddiad; a***
***(iii)*** ***cymeradwyo'r dull diwygiedig arfaethedig ar gyfer adrodd Risgiau Corfforaethol fel yr amlinellwyd yn Atodiad 4 i'r adroddiad.***

**7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO**

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu'r adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) er mwyn gofyn i'r Pwyllgor adolygu ei raglen gwaith i'r dyfodol.

Roedd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mehefin 2024. Roedd pedair eitem wedi'u trefnu ar gyfer y cyfarfod -

- Argymhellion Arolwg Estyn 2018
- Recriwtio, Cadw a Chynllunio'r Gweithlu
- Strategaeth Ddiwygiedig Ddrafft Sir Ddinbych ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol 2021/2022-2029/2030
- Y wybodaeth ddiweddaraf am Hunanasesiad y Cyngor o'i Berfformiad (Ch4 a Blynyddol)

Roedd Atodiad 2 yn cynnwys copi o ffurflenni Cynnig ar gyfer Craffu yr Aelodau ac anogwyd Aelodau i gwblhau'r ffurflen os oedd ganddynt unrhyw eitemau yr oeddent yn meddwl y byddai'n haeddu eu craffu.

Roedd Rhaglen Waith y Cabinet yn Atodiad 3 er gwybodaeth.

Roedd Atodiad 4 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar argymhellion y Pwyllgor o'i gyfarfodydd blaenorol.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: yn amodol ar gynnwys yr adroddiad cynnydd ar Gysylltedd Rhyngrwyd a geisiwyd yn ystod y cyfarfod, i gadarnhau'r rhaglen waith fel roedd wedi'i nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad.***

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Darparodd y Cynghorydd Martyn Hogg drosolwg i'r Pwyllgor o'r cyfarfod Herio Gwasanaeth diweddar ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Corfforaethol: Pobl a oedd wedi'i fynychu ar ran y Pwyllgor. Amlinellodd gryfderau a gwendidau'r gwasanaeth ynghyd â'r camau gweithredu a nodwyd i geisio mynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Un o'r prif wendidau a nodwyd oedd system Rheoli Cyswllt Cwsmer C360 y Cyngor a oedd angen ei newid. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o gaffael system newydd.

Mynegodd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ynghyd ag Aelodau eraill y Pwyllgor, bryderon mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig i'r broses Herio Gwasanaeth ar gyfer 2024/25. Roeddent yn pryderu mai dim ond Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad fyddai'n cynrychioli Craffu ym mhob cyfarfod Herio Gwasanaeth yn y dyfodol a byddai'r broses Herio Gwasanaeth gyfan yn cael ei chynnal o fewn cyfnod o 3-4 wythnos ym mis Tachwedd. Byddai hyn yn creu llwyth gwaith trwm i Gadeirydd / Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac efallai'n rhoi pwysau ar eu hamser ac argaeledd ar gyfer gwaith arall, yn ogystal ag amddifadu Aelodau Craffu eraill o gyfle i gymryd rhan yn y broses a chynnig eu harbenigedd unigol.

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'i gyfarfod blynyddol diweddaraf gyda swyddog Estyn mewn perthynas â rôl y Pwyllgor wrth graffu materion addysg.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>*: derbyn y wybodaeth a ddarparwyd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm